

RYDYM YN RECRIWTO

Ymunwch â'r adran Bwyd a Diod yn
Hamdden Sir Ddinbych Cyf





Teitl y Swydd : Prif Gogydd

Cyfeirnod y swydd:

Lleoliad: 1891, Y Rhyl

Cyflog: £29,577 - £32,234

Oriau: 37 awr

Contract: Parhaol

Dyddiad Cau: 15/7/2021

Sut i wneud cais:

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy'r wefan www.hamdensirddinbych.co.uk.

Gweinyddir pob cais ar ein rhan gan Gyngor Sir Dinbych, ein comisiynwyd darparwr AD. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym na allwn ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, fe ddylech chi gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

Llythyr gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Helo, fy enw yw Jamie Groves, a fi yw'r Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddwn yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.



"Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr"

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddo-barthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwll nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Beach Hut ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda 3 oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Rydym ni'n edrych ymlaen at dderbyn eich cais.



Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwmo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon rhagorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.

Ein Pobl | Ein Busnes | Ein Cymuned



Swydd-ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Prif Gogydd

Cyflog: £29,577 - £32,234

Cwmni : Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Maes Gwasanaeth: Hamdden Masnachol – Gweithrediadau Bwyd a Diod

Ynatebol i: Rheolwr Grŵp Gweithrediadau Bwyd a Diod

Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi: I'w gadarnhau

Pwrpas y Swydd:

Pwrpas y rôl ydi Arwain a Rheoli'r timau o Gogyddion / Arlwyo ym mwyty 1891, er mwyn cynnal a darparu profiad bwyty rhagorol.

Bydd y rôl yn arwain a chynghori ar holl agweddau o arlwyo ar draws y tri bwyty o fewn 1891. Y prif fwyty, bwyty newydd y Mall a'r Teras. Cynnal enw da'r atyniad, a gwneud y mwyaf o'r refeniw ar gyfer y Cwmni.

Fe fydd gennych gefndir a phortffolio helaeth fel Prif Gogydd profiadol gyda thystiolaeth o brofiad o ddatblygu bwytai llwyddiannus.

Bydd deiliad y swydd yn rheoli'r holl weithrediadau cefn tŷ, y gadwyn gyflenwi a'r gegin, gan gynorthwyo i gyflawni potensial masnachol llawn y bwyty. Fel Prif Gogydd profiadol, fe fydd gennych gofnod llwyddiannus o osod safonau a pholisïau mewn disgyblaethau perthnasol. Byddwch yn gallu dangos yn eich portffolio, y gallwch reoli timau dynamig sy'n symud yn gyflym, a datblygu a gweithredu bwydlenni, polisïau ac arferion perthnasol.

Fel y Prif Gogydd, byddwch yn rheoli tîm o Gogyddion a gweithwyr arlwyo proffesiynol ac yn gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol - gwneud argymhellion i'r Arweinydd ar gyfer gweithrediadau Bwyd a Diod; y Rheolwr Gyfarwyddwr; a Phennaeth Masnach, a bydd gennych y gallu i ddatblygu a gweithredu'r holl bolisïau, arferion a bwydlenni perthnasol.

Bydd eich sgiliau yn cynnwys y gallu i ystyried ffactorau a dylanwad sefydliadol, masnachol ac amgylcheddol, a chynnwys y rhain wrth wneud penderfyniadau.

Byddwch yn arbenigwr sy'n arbenigo mewn creu a chynnal enw da a safonau rhagorol bwyty.

Bydd deiliad y swydd yn rhan o Dîm Rheoli Arlwyo'r Cwmni yn darparu cyngor, cymorth ac arweiniad i staff ar faterion perthnasol; ac yn barod i herio a chymharu dulliau gweithio o fewn ac ar draws meysydd gwasanaeth tebyg eraill.



Bydd deiliad y swydd yn:

- Weithiwr proffesiynol profiadol a medrus yn y maes perthnasol sy'n mwynhau her ac sydd â'r dyfalbarhad i lwyddo.
- Meddu ar y sgiliau a'r profiad i gyfrannu at arweinyddiaeth; arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau arlwyo cadarn; a meithrin perthnasoedd gwaith cryf gyda staff, partneriaid ac uwch swyddogion eraill y Cwmni.
- Meddu ar brofiad a thystiolaeth o allu i reoli staff a chyllid yn effeithiol i gyflawni gwasanaethau ac amcanion.
- Meddu ar sgiliau arweinyddiaeth, cyfathrebu, rhyngpersonol a rheoli rhagorol, yn gymesur â statws y swydd.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, er mwyn cynnal perthnasoedd gwaith da pan fydd materion anodd a dadleuol yn cael eu trin / datrys o fewn y bwyty.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

- Arwain y timau Arlwyo i greu pryddau o ansawdd uchel i safon ragorol.
- Arwain a mentora'r holl staff arlwyo er mwyn sicrhau bod y pryddau sy'n cael eu paratoi o safon uchel yn gyson.
- Arwain y gwaith i baratoi, cynllunio a datblygu bwydlenni, gan sicrhau eu bod yn gost effeithiol, o ansawdd uchel ac yn diwallu anghenion y cwsmeriaid a thueddiadau a ragwelir er mwyn sicrhau llwyddiant a hyfywedd y busnes.
- Arwain, creu a gweithredu hyrwyddiadau/ mentrau newydd a fydd yn cyfrannu at dwf masnachol y busnes.
- Arwain a mentora Goruchwylwyr Bar a Bwyty, yn ogystal â'u timau, i sicrhau lefelau ardderchog o fodlonrwydd cwsmer ac i hyrwyddo a datblygu'r sefydliad.
- Cyfrifoldeb llwyr am sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaethau yn y gegin, yn enwedig o ran diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch, gan gynnwys cadw'r manau paratoi a chadw bwyd yn lân
- Cyfrifoldeb am reoli stoc, diogelwch yr ardaloedd cegin a chefn tŷ gan gynnwys yr oergelloedd, rhewgelloedd a chypyrddau stoc.
- Cyfrifoldeb am ddiogelwch pawb yn y gegin yn unol â'r gweithdrefnau arferol a'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith



Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

- Cyfrifoldeb am gwblhau adroddiadau stoc wythnosol/misol, a gwaith papur cysylltiedig arall.
- Arwain ac ysgogi tîm y gegin, gan gynnwys darparu unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu hanfodol i'r Is-gogyddion, y Cogyddion Cynorthwyol ac aelodau'r tîm Arlwyo.
- Rheoli a chynnal cadwyn gyflenwi'r cwmni ar gyfer darpariaethau, a chynnal lefelau stoc gan gyflenwyr a bennwyd.
- Nodi unrhyw duedd yn y farchnad a fydd yn gwella profiad y cwsmer, a gweithredu hynny.
- Darparu arweinyddiaeth, strwythur, rheolaeth a chyfarwyddyd i weithrediadau cegin 1891.
- Darparu arweinyddiaeth ar gyfer cefn tŷ'r bwyty i wneud y mwyaf o enw da a sefyllfa fasnachol y Cwmni.
- Darparu cyngor, arweiniad ac adrodd i Uwch Reolwyr y Cwmni mewn perthynas â'r holl faterion perthnasol sy'n gymesur â'r rôl a'r cyfrifoldebau.
- Fel aelod o'r tîm rheoli, cyfrannu'n llawn at ddatblygu strategaeth fasnachol y Cwmniar draws holl feysydd busnes 1891, herio rhagdybiaethau achosion busnes a gwneud penderfyniadau fel bo'n briodol; a darparu dadansoddiad ac arweiniad ar holl weithgareddau, cynlluniau, targedau ac ysgogwyr busnes.
- Darparu arweinyddiaeth weladwy a chllir i staff gan gynnwys canllawiau clir a herio trylwyr i sicrhau arferion o ansawdd uchel, yn arbennig mewn perthynas â'r maes gwasanaeth.
- Sefydlu a chynnal lefel uchel o hygrededd a rheoli perthnasoedd gwaith cryf gyda sefydliadau allanol, gan gynnwys cwsmeriaid, partneriaid / cyflenwyr eraill.
- Sicrhau bod y rheolyddion gofynnol ar waith i reoli cyllidebau cegin heb gyfaddawdu ar ddarpariaeth gwasanaeth.
- Monitro perfformiad y gofynion statudol perthnasol sydd ynghlwm â meysydd cyfrifoldeb a rhoi adborth rheolaidd i'r Uwch Reolwyr.

Goruchwyllo/Rheoli Pobl

- Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb rheolwr atebol ar gyfer hyd at 12 swydd yn strwythur y bwyty ac yn gallu dangos profiad o Reoli tîm arlwyo amlddisgyblaethol mewn amgylchedd prysur a dynamig.
- Yn absenoldeb Rheolwr y Bwyty, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio ar lefel strategol, gan gynghori a herio'r timau arlwyo ehangach.



Amodau Gwaith Arbennig

- Bydd gan ddeiliad y swydd gymhwyster Lefel 4/5 o leiaf mewn arlwyo neu'n gallu arddangos portffolio gyda phrofiad sylweddol mewn rôl a maes tebyg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Bod yn hyblyg, yn gallu addasu ac yn barod i arwain timau cegin ar gais mewn bwytaï eraill ar draws y grŵp.
- Mae gofyn am ymdrech gorfforol wrth godi a symud bagiau o fwyd ac offer, a chynwysyddion llawn bwyd sydd eisoes wedi'i baratoi. Ar y cyfan mae'r amodau gwaith yn dda, ond bod yna wres, stêm ac arogleuon. Gweithio oriau maith ac mae patrwm y sifftiau yn cynnwys gweithio gyda'r nosau a phenwythnosau mewn amgylchedd dan bwysau.
- Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod â'r gallu i deithio ar draws Sir Ddinbych, a thelir lwfans am hyn, ond mae hyn yn cael ei adolygu.
- Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'r oriau sydd eu hangen ar gyfer y swydd.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o fewn terfynau amser tynn ac o fewn cyllidebau penodol.
- Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau heb oruchwyliaeth, a rhaid iddynt brofi eu bod yn gallu gweithio ar eu liwt eu hunain ac o dan bwysau.
- Mae'r gallu i flaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a bodloni terfynau amser yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.



Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi trawsnewid dros y degawd diwethaf ac mae bellach yn adnabyddus am ddarpariaeth o safon uchel ledled Sir Ddinbych; gan gynnig arlwy Hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a masnachol gynaliadwy; a gwneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein trigolion a darparu ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'n gweithlu llawn cymhelliant sy'n gweithio o fewn diwylliant gwych a gwerthoedd cryf.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn glynu at ein egwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom fel eu cyflogwr i wneud yr hyn sy'n iawn bob amser, a byddwn yn eu gwneud yn falch.
- Ni fyddwn yn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri piler pwysig ac unigryw, sy'n sail ac yn ddylanwad ar y ffordd yr ydym yn gweithio a'r rheswm dros greu'r Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n cydweithio â'i bartneriaethau a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu ac yn datblygu ei weithlu— mae'r Cwmni yn credu'n gryf mewn athroniaeth 'un tîm – un cyfrif banc'.



Tair piler o Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Ein Cymuned

Yn ardal Sir Ddinbych yn ehangach mae ein timau yn gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a phreswylwyr. Mae'r cymunedau hyn yn greiddiol i bopeth rydym yn ei wneud.

Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn eu dwyn i'w rôl ac er bod y cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau yr un rhinweddau yn gyffredin - maent yn llawn angerdd a chymhelliant am eu gwaith, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am wasanaeth cwsmer rhagorol.

Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn gwmni newydd a adeiladwyd ar gefndir o berfformiad uchel ac ymarfer arloesol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth o fewn Cyngor Sir Ddinbych, rydym wedi sefydlu perthnasau parhaus sy'n fuddiol i bawb gyda nifer o sefydliadau partner. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. O fewn bob perthynas, rydym wedi ymrwymo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwarteisi.

Mae'r deiliad swydd yn allweddol i sicrhau '...erbyn 2030 bydd y cwmni yn parhau i fod yn adnabyddus am ddarparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad, a gwella lles preswylwyr ac ymwelwyr Sir Ddinbych'.



Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y corff, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r corff allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.



Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweld am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n bertnnasol).

Teitl y Swydd: Prif Gogydd

Gwasanaeth: Gweithrediadau Bwyd a Diod

Cyflog : £29,577 - £32,234

Creadigrwydd ac Arloesi

Gallu darparu atebion arloesol a chreadigol i lywio gwelliannau gwasanaeth parhaus a helpu i gynnal y profiad yr ydym yn ei roi i'n cwsmeriaid.

Meddu ar y gallu i strwythuro materion cymhleth ac i wneud penderfyniad cytbwys ac ar sail gwybodaeth o dan bwysau, pan fo'r bwyty'n gwbl weithredol.

Meddu ar y gallu a'r weledigaeth i ragweld a dylanwadu newid mewn ymateb i anghenion cwsmeriaid a nodir a bod â'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i reoli materion cymhleth a gofynion cystadleuol mewn amgylchedd deinamig ac o dan bwysau.

Cymwysterau, Profiad a Gwybodaeth

GBydd gan ddeiliad y swydd gymhwyster Lefel 4/5 o leiaf mewn arlwyo neu'n gallu arddangos portffolio gyda phrofiad sylweddol mewn rôl a maes tebyg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Profiad sylweddol o weithio mewn bwyty o safon uchel, ac amgylchedd masnachol bwyd a diod.

Profiad o greu a pharatoi prydau bwyd o'r radd flaenaf, gan ddefnyddio cynhwysion ffres

Gallu gweithio'n gydweithredol ac ar y cyd fel rhan o dîm, gan ysgogi eraill i ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy ymddygiad rôl da a chysondeb yn y dull gweithredu, fel Prif Gogydd Profiadol.

Gwaith tîm a phartneriaeth: cydweithio i ddarparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a staff.

Gallu cyflwyno a chefnogi newidiadau yn ôl yr angen. Addasu i newidiadau a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau.

Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion allweddol sy'n rhan o gynllunio polisi a rheoli perfformiad cegin.

Profiad o weithio ar lefel Cogydd uwch mewn bwyty amrywiol a dynamig a gosod safonau ac arferion gwaith.

Profiad amlwg o arwain a rheoli timau cegin amlddisgyblaethol llwyddiannus. Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth: ymateb yn llwyddiannus i anghenion dynodedig cwsmeriaid.

Gallu gweithredu egwyddorion gwerth am arian ac effeithlonrwydd, gyda'r gallu i yrru hyn ymlaen o fewn y bwyty.

Gallu defnyddio a chymhwyso offer perthnasol yn unol â natur a gofynion y swydd.

Profiad helaeth o ddatblygu bwydlenni.

Gallu dylanwadu ar eraill i ddarparu'r lefelau uchaf o wasanaeth i gwsmeriaid. Sgiliau rhyngbersonol lefel uchel.

Gallu dangos sgiliau o safon uchel mewn diplomyddiaeth, tact, perswâd, cyd-drafod, eiriolaeth a phendranrwydd.

Arddangos ymrwymiad cryf i wasanaeth cwsmer. Ymwybyddiaeth gref o'ch atebolrwydd eich hun ac eraill.

Yn dangos gwytnwch dan bwysau.

Profiad o ddarparu mentrau yn seiliedig ar anghenion busnes bwyty Addasu arddull bersonol i gwrdd â gofynion sefyllfaoedd cymhleth.

Dealltwriaeth helaeth o reoliadau mewn perthynas â gweithrediadau Bwyd a Diod.



Diolch am eich diddordeb

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch Gwyn Hughes Swyddog Arweiniol ar gwyn.hughes@hamddensirddinbych.co.uk neu 01824 712707.



www.hamddensirddinbych.co.uk



Hamdden Sir Ddinbych

@HamddenSDd